**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r rheoliadau uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) 2024.

Lynne Neagle AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
25 Mehefin 2024

## 1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) 2024 ("y Rheoliadau") yn gwneud diwygiadau angenrheidiol i ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth o ganlyniad i gychwyn adran 23 a darpariaethau yn Atodlen 4 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("Deddf 2022") a diddymiad dilynol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ("CCAUC").

Mae'r darpariaethau hyn i'w cychwyn ar 1 Awst 2024, drwy Orchymyn Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Darfodol a Throsiannol) 2024.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Dim.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

Mae'r pwerau sy'n galluogi'r Rheoliadau hyn i gael eu gwneud wedi'u cynnwys yn adran 146 o Ddeddf 2022 sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n cynnwys darpariaethau atodol, cysylltiedig neu ganlyniadol (ymhlith eraill) at ddibenion, o ganlyniad i, neu ar gyfer rhoi effaith lawn i, unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf honno. Mae adran 146(2) yn datgan y caiff rheoliadau o'r fath ddiwygio, addasu, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad.

Mae adran 143(3) a (4)(e)(ii) o Ddeddf 2022 yn darparu na ellir gwneud unrhyw Reoliadau a wneir o dan adran 146 o'r Ddeddf honno, sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol, oni bai bod drafft wedi'i osod gerbron Senedd Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddi.

Ar yr amod eu bod yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd, caiff y Rheoliadau eu gwneud gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a byddant yn dod i rym ar 01 Awst 2024.

## 3. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae Deddf 2022 yn darparu ar gyfer sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("y Comisiwn") a diddymu CCAUC. Mae adran 23 o Ddeddf 2022 yn diddymu CCAUC. Mae'r diwygiadau a geir yn y rheoliadau hyn yn angenrheidiol o ganlyniad i adran 23 o Ddeddf 2022 ac er mwyn rhoi effaith lawn iddi.

Bydd y Comisiwn yn gyfrifol am gyllido, goruchwylio a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Mae addysg drydyddol yn cwmpasu addysg ôl-16 gan gynnwys addysg bellach ac addysg uwch, dysgu oedolion yn y gymuned ac addysg seiliedig ar waith, prentisiaethau, a chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol.

Mae Rhan 2 o Ddeddf 2022 yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol, a fydd yn darparu'r fframwaith o oruchwyliaeth

reoleiddiol ar gyfer darparwyr addysg drydyddol cofrestredig yng Nghymru sy'n derbyn arian cyhoeddus, gan gynnwys cyllid grant gan y Comisiwn a chymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru.

Bwriedir sefydlu'r gofrestr ar 31 Gorffennaf 2026, gyda'r trefniant rheoleiddiol cysylltiedig yn cael ei weithredu'n llawn erbyn 31 Gorffennaf 2027. Er mwyn sicrhau bod y sector addysg uwch yng Nghymru yn parhau i gael ei reoleiddio, bydd darpariaethau perthnasol Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 yn cael eu haddasu o 1 Awst 2024, er mwyn caniatáu i'r swyddogaethau hyn gael eu harfer gan y Comisiwn. Bydd y darpariaethau diwygiedig hyn yn parhau ar waith drwy gydol y cyfnod trosiannol o 1 Awst 2024 i 31 Gorffennaf 2027.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o gychwyn adran 23 o Ddeddf 2022, a darpariaethau yn Atodlen 4 i Ddeddf 2022, yn ogystal â'r trefniadau trosiannol sy'n cael eu rhoi ar waith mewn perthynas â gweithredu'r system gofrestru, fel y darperir ar eu cyfer gan Ddeddf 2022.

Mae'r diwygiadau'n dileu'r cyfeiriadau at CCAUC yn bennaf ac yn rhoi yn eu lle gyfeiriadau at y Comisiwn lle bo'n briodol.

Ceir diwygiadau hefyd sy'n ganlyniadol ar ddiddymu adran 86 o Ddeddf Addysg 2005 ac adran 18C(12)(b) o Ddeddf Addysg 1994, gan Atodlen 4 i Ddeddf 2022, yn ogystal â diwygiadau tacluso.

Mae'r diwygiadau yn y rheoliadau hyn yn:

(a) diwygio deddfiadau i ddileu’r cyfeiriadau at "Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru", "y Cyngor" ac "asiantaeth gyllido" ac yn rhoi yn eu lle gyfeiriadau at y "Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil” lle bo'n briodol;
(b) diwygio deddfiadau i adlewyrchu'r darpariaethau addasedig yn ystod y cyfnod trosiannol mewn perthynas â'r gofrestr;
(c) diwygio deddfiadau i ddileu cyfeiriadau at ddarpariaethau a ddiddymwyd; a
(d) diwygio deddfiadau i gael gwared ar ddarpariaethau anarferedig.

## 4. Ymgynghori

Nid oes ymgynghoriad ffurfiol wedi’i gynnal gan mai dim ond diwygiadau technegol canlyniadol y mae’r rheoliadau’n eu gwneud.

Mae'r Adran Addysg wedi cael gwybod am y diwygiadau sy'n cael eu gwneud i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) 2011, Rheoliadau Addysg (Benthyciadau Gradd Meistr Ôl-raddedig) 2016 a Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth i Fyfyrwyr) (Lloegr) 2015.

## 5. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn, am eu bod yn gwneud diwygiadau canlyniadol a thechnegol i ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli, ac nad ydynt yn gosod nac yn lleihau costau i fusnesau, elusennau na chyrff

gwirfoddol na'r sector cyhoeddus. Mae hyn yn cydymffurfio â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.